Electoral Reform Society Cymru



# MENYWOD YN Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL

STEVE BROOKS A OWAIN AP GARETH
GYDA RHAGAIR GAN YR ATHRO LAURA MCALLISTER

EBRILL 2016

## Cydnabyddiaeth

Mae Electoral Reform Society Cymru yn ddiolchgar i bob unigolyn a rannodd wybodaeth â ni ac a gynnigodd cymorth i amlinellu ein sefyllfaoedd etholiadol. Diolch hefyd i'r unigolion a'r mudiadau a helpodd wrth greu drafft o'r adolygiad hwn, gan gynnwys:

Katie Gallogly-Swan;
Paul Harding;
Laura McAllister;
Roger Scully;
Chris Terry.

## Rhagor o Wybodaeth

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Electoral Reform Society Cymru ar (029) 2049 6613 neu wales@electoral-reform.org.uk

Twitter: @ERS_Cymru
Facebook: www.facebook.com/ERSWales

Ebrill 2016
Roedd yr holl ddata'n gywir ar adeg y cyhoeddiad.

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Rhagair gan yr Athro Laura McAllister | 6 |
| Rhagarweiniad | 8 |
| 1. Etholiad 2016 | 10 |
| 2. Y Rhagamcaniad cyffredinol | 14 |
| 3. Y pleidiau gwleidyddol | 17 |
| 4. Atodlen | 22 |

# RHAGAIR GAN YR ATHRO LAURA MCALLISTER

Yn 2013, cyhoeddodd Electoral Reform Society Cymru ei Hadroddiad Grym Cymru blynyddol cyntaf a edrychodd ar rôl menywod mewn bywyd cyhoeddus. Dangosodd yr adroddiad sut, ganrif ar ôl i fenywod ennill yr hawl i bleidleisio, nad yw lefel cynrychiolaeth menywod mewn rhai rhannau o fywyd cyhoeddus Cymru wedi newid rhyw lawer.

Yn ystod y degawd diwethaf, roedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru yn arwain y byd o ran cynrychiolaeth menywod. Menywod oedd mwy na hanner gweinidogion y cabinet rhwng 2000 a 2005, a dros hanner yr Aelodau Cynulliad rhwng 2005 a 2007 – y tro cyntaf unrhyw le yn y byd. Ond mae'r addewid cynnar hwnnw wedi colli momentwm ac fel mae'r adroddiad hwn yn dangos, mae Cymru bellach mewn peryg o gwympo'n ôl.

Yn y ddau etholiad diweddar i Gynulliad Cymru, mae nifer yr ACau sy'n fenywod wedi gostwng wrth i ddynion gymryd lle menywod a gafodd eu hethol am y tro cyntaf ym 1999 wedi iddynt ymddeol. Bu i weithred gadarnhaol gynnar gan Lafur a Phlaid Cymru greu 'mantais y deiliad': roedd gan fenywod a gafodd eu hethol yn gyntaf ym 1999 neu yn 2003 well cyfle o gael eu hail-ddewis a'u hail-ethol mewn etholiadau diweddarach, gan felly gynyddu'r nifer o fenywod yn y Cynulliad. Ond wrth i Lafur a Phlaid Cymru dynnu mesurau cadarnhaol fel gefeillio etholaethau a llefydd wedi'u neilltuo ar frig y rhestrau rhanbarthol yn l, dechreuodd dynion ddisodli menywod. Hefyd, yn ystod etholiad 2011, bu i rai menywod a etholwyd am y tro cyntaf ym 1999 ac yn 2003 ymddeol ac yn aml dynion a gymerodd eu lle. Mae hyn yn creu mantais newydd i'r deiliad sy'n gweithredu o blaid dynion ac yn herio ymdrechion pellach i gael cydraddoldeb rhyweddol.

Mae'r dadansoddiad gwerthfawr hwn gan Electoral Reform Society Cymru'n rhybuddio y gallai nifer y menywod a gaiff eu hethol yn yr etholiad hwn gwympo mor isel â 22 a dim ond cyrraedd mor uchel ag 28. Y sefyllfa fwyaf tebygol yw y bydd cyfanswm rhywle yn y canol, sy'n golygu mai hwn fydd y trydydd etholiad lle mae nifer y menywod wedi colli momentwm. Rhaid aros i weld p'un ai bod y diffyg cynnydd hwn yn rhan o newid organig (un gaiff ei gydbwyso yn etholiadau'r dyfodol), neu symptom o ddirywiad tymor hirach fydd yn magu momentwm wrth i'r aelodau a etholwyd ym 1999, a mwy o'r rheiny a ymunodd â nhw yn 2003 ac yn 2007, ymddeol.

Er bod pleidiau unigol yn gweithredu, byddai'n naïf bod yn hyderus ynglŷn â'r dyfodol. Heb ymrwymiad newydd gan y pleidiau gwleidyddol, bydd Cymru'n mynd yn genedl ganolradd o ran cydraddoldeb rhyweddol yn y byd. Bydd y cynnydd a wnaed yn ystod dyddiau cynnar datganoli wedi bod yn digwyddiad unigol ac unigryw, yn hytrach na dechrau tuedd i weddnewid cadarnhaol bywyd cyhoeddus Cymru.

**Yr Athro Laura McAllister**

# RHAGARWEINIAD

Mae'n debyg mai etholiad 2016 fydd un o'r rhai mwyaf anodd i'w ddarogan yn hanes y Cynulliad. Mae'r system bleidleisio led-gyfrannol, a ddaeth o'r angen am gyfaddawd gwleidyddol yn y 1990au, wedi bod yn eithaf da i Gymru, hyd nawr. Mae chwe phlaid yn y ras yn yr etholiad hwn, a'r gwahaniaeth rhwng ennill a cholli i lawer o ymgeiswyr fydd dyrnaid o bleidleisiau. Mae Llafur a Phlaid Cymru, pleidiau sydd wedi gwneud y mwyaf i sicrhau ACau sy'n fenywod yn y gorffennol, yn wynebu tynged ansicr. Mae'r Ceidwadwyr – y mae eu cynnydd yn y maes hwn wedi bod yn eithaf gwael ar y cyfan – yn mynd i 2016 gan obeithio ennill seddi, ond mae wynebau Torïaidd newydd yn y Senedd yn debygol o fod yn ddynion. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn wynebu brwydr anodd wrth i rai arolygon ddarogan na fyddant yn ennill sedd o gwbl. Ac eto, bu i'r blaid ragori ar yr arolygon yn 2011 ac os mae'n cynnal ei phresenoldeb ym Mae Caerdydd y tro hwn, ei hymgeiswyr sy'n fenywod fydd â'r cyfle gorau i gael eu hail-ethol. Er bod y Blaid Werdd yn brwydro i sicrhau ei haelod etholedig gyntaf yn Senedd Cymru, ymddengys fod UKIP yn fwy tebygol o ennill aelodau o'r diwedd – ond gallai llwyddiant UKIP, a chanddi ddynion yn bennaf fel ymgeiswyr, bennu cydbwysedd rhyw y pumed Cynulliad.

Mae ansicrwydd yn yr arolygon barn a chyflymdra newid yng ngwleidyddiaeth Cymru yn ei gwneud yn anodd rhagweld canlyniad etholiad 2016. Mae Llafur, Plaid Cymru, y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Blaid Werdd wedi dethol gwell cydbwysedd o fenywod yn ymgeiswyr mewn seddi y gellir eu hennill na'r Ceidwadwyr ac UKIP. Yn syml, mae'n debygol y bydd unrhyw ogwydd sylweddol o'r chwith i'r dde yn yr etholiad hwn yn effeithio'n negyddol ar nifer y menywod a etholir (er bod yna eithriadau mewn etholaethau fel Aberconwy a Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro).

I bennu ein rhagolygon cyffredinol, rydym wedi datblygu pedair sefyllfa. Mae dwy ohonynt yn seiliedig ar ganlyniadau'r etholiad blaenorol, cryfder yr ymgeiswyr a'r wybodaeth leol y mae ymgyrchwyr ar lawr gwlad wedi'i rhannu â ni. Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi ein helpu â'n hymdrechion. Mae ein dwy sefyllfa arall yn defnyddio data o Astudiaeth Etholiad Cymru ac rydym yn ddiolchgar i Ganolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd am sicrhau bod yr wybodaeth honno ar gael.

Mae ein dadansoddiad yn darparu dau gasgliad amlwg:

**Mae menywod yn llawer mwy tebygol o ymladd seddi ymylol.**

Rydym wedi tynnu sylw at un ar ddeg o etholaethau ymylol a all newid dwylo yn 2016. O'r un ar ddeg, mae deg ohonynt yn cael eu hamddiffyn gan fenywod.

**Bydd nifer y menywod yn y Cynulliad nesaf yn aros yr un fath**

Rydym yn rhagdybio y bydd rhwng 22 (37%) a 28 (45%) o fenywod yn cael eu hethol yn ACau yn yr etholiad hwn (o gymharu â 25 (42%) a etholwyd yn 2011).

# 1 ETHOLIAD 2016

## Etholaethau ymylol

Mae Electoral Reform Society Cymru wedi tynnu sylw at un ar ddeg o etholaethau rydym yn meddwl y gallant newid dwylo yn etholiad 2016. O'r un ar ddeg o etholaethau hynny, roedd saith ymysg y deg sedd[1] fwyaf ymylol yn etholiad 2011. Rydym yn rhagweld y bydd tair o'r deg sedd fwyaf ymylol yn 2011 yn anhebygol o newid dwylo yn 2016 o ystyried yr arolygon barn diweddar a pherfformiad y pleidiau yn etholiad cyffredinol y DU yn 2015.

Etholaethau ymylol y CNE (mae'r blaid sy'n eu hamddiffyn mewn cromfachau):

1. Caerdydd Canolog (Llafur);
2. Llanelli (Llafur);
3. Gogledd Caerdydd (Llafur);
4. Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro (Ceidwadwyr);
5. Aberconwy (Ceidwadwyr);
6. Brycheiniog a Sir Faesyfed (Democratiaid Rhyddfrydol);
7. Bro Morgannwg (Llafur);
8. Delyn (Llafur);
9. Dyffryn Clwyd (Llafur);
10. Wrecsam (Llafur);
11. Gŵyr (Llafur).

Mae deg o'r un ar ddeg etholaeth yn cael eu hamddiffyn gan ymgeiswyr sy'n fenywod, a dim ond un (Llanelli) sy'n cael ei hamddiffyn gan ddyn. Mae'r Blaid Lafur yn amddiffyn wyth etholaeth

1 Ceredigion, Sir Drefaldwyn, a Phreseli Penfro.

ymylol; mae'r Ceidwadwyr yn amddiffyn dwy ac yn brif heriwr mewn saith. Mae Plaid Cymru'n brif heriwr mewn un ac yn herio gyda Llafur mewn dwy sedd ymylol sy'n perthyn i'r Ceidwadwyr a all fynd un o dair ffordd (Aberconwy a Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro); ac mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn amddiffyn un ac yn brif heriwr mewn un.

O'r saith etholaeth ymylol lle mae'r Ceidwadwyr yn brif heriwr, mae'r blaid wedi dewis un ddynes yn unig (Jayne Cowan, Gogledd Caerdydd). Mae Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cynnig menywod yn yr etholaethau ymylol lle mant yn brif heriwr. Yn y ddwy sedd ymylol dair-ffordd (Aberconwy a Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro), mae'r deiliaid, sef dwy ddynes Geidwadol, yn amddiffyn eu seddi rhag heriau gan ddau ymgeisydd sy'n ddynion (o Lafur a Phlaid Cymru).

## Seddi ymylol ar y rhestr ranbarthol

Gall un deg tri o seddi rhanbarthol newid dwylo yn etholiad y Cynulliad 2016:

| Canolbarth a Gorllewin Cymru | Gogledd Cymru | Canol De Cymru | Dwyrain De Cymru | Gorllewin De Cymru |
|---|---|---|---|---|
| Llafur (1) | Plaid Cymru | Ceidwadwyr (1) | Ceidwadwyr (1) | Ceidwadwyr (1) |
| Llafur (2) | Ceidwadwyr (1) | Plaid Cymru | Plaid Cymru | Plaid Cymru |
| Plaid Cymru | Ceidwadwyr (2) | Ceidwadwyr (2) | Ceidwadwyr (2) | Ceidwadwyr (2) |
| Democratiaid Rhyddfrydol | Democratiaid Rhyddfrydol | Democratiaid Rhyddfrydol | Plaid Cymru (2) | Democratiaid Rhyddfrydol |

Mae'r blociau lliw yn dynodi seddi diogel; mae llwyd yn dynodi bregus.

Yn yr un deg tri o seddi restr ranbarthol ymylol, mae pump yn cael eu hamddiffyn gan fenywod ac wyth gan ddynion. O'r tair sedd restr ranbarthol ymylol fwyaf bregus i'r Ceidwadwyr[2], mae dwy yn cael eu hamddiffyn gan fenywod ac un gan ddyn. Mae sedd restr fwyaf bregus Llafur yn cael ei hamddiffyn gan ddynes (dyna hefyd oedd yr achos y tro diwethaf), er bod y blaid wedi dewis dynes i amddiffyn ei sedd restr ddiogel, a dynes sy'n ymladd am gynnydd mwyaf tebygol Llafur ar y rhestr ranbarthol (Gogledd Cymru). O ddwy sedd restr ranbarthol fwyaf bregus Plaid Cymru, mae dyn a dynes yn amddiffyn un yr un. Gallai Plaid Cymru golli eu sedd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru,

2 Yr ail seddi ar restr Gogledd Cymru, Dwyrain De Cymru a Gorllewin De Cymru.

sydd wedi'i dal gan ddyn ar hyn o bryd, pe bai'r blaid yn ennill yn etholaeth Llanelli (dynes yw'r heriwr) ac yn perfformio'n gymharol wael yng ngweddill y rhanbarth. Yn yr etholiad diwethaf, amddiffynwyd sedd gyntaf Plaid Cymru ar restr Dwyrain De Cymru gan ddynes; dyn a amddiffynodd yr ail sedd. Bydd y ddau ddeiliad yn ymddeol yn yr etholiad hwn a bydd dyn yn ymladd y sedd gyntaf ar y rhestr a dynes yn ymladd yr ail dros Blaid Cymru yn Nwyrain De Cymru. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol mewn peryg o golli eu holl seddi rhestr ranbarthol, a fyddai'n arwain at bedwar deiliad (tri dyn ac un ddynes) yn colli.

## Seddi sicr

Rydym yn disgwyl y bydd y 29 o seddi etholaeth sy'n weddill yn aros yn nwylo'r blaid sy'n eu dal, ac felly rydym yn eu hystyried i fod yn seddi sicr. Mae seddi sicr yn cynnwys seddi sy'n draddodiadol ddiogel (fel arfer, caiff eu cadw gan y blaid sy'n eu dal eisoes â mwyafrif sylweddol) a seddi sydd fel arfer yn ymylol nad ydym yn disgwyl iddynt fod yn allweddol yn yr etholiad hwn.

O'r 29 o seddi sicr, mae ychydig dros chwarter (wyth, neu 27.6%) yn cael eu hamddiffyn gan fenywod. Mae tair dynes yn amddiffyn seddi etholaeth sicr lle mae'r dyn sy'n AC yno ar hyn o bryd yn ymddeol[3], ac mae un dyn yn debygol o gymryd lle dynes sy'n ymddeol o'i rôl fel AC etholaeth[4]. Mae hyn yn mynd yn groes i duedd yn 2011 lle bu i ddynion ddisodli ymgeiswyr a oedd yn fenywod. Yn 2011, llwyddodd dwy fenyw i amddiffyn seddi sicr a oedd wedi cael eu dal gan ddynion o'r un blaid[5] ond llwyddodd pum dyn i amddiffyn seddi sicr a oedd wedi cael eu dal gan fenywod[6]. Disodlwyd dynion gan fenywod mewn dwy sedd restr fregus[7].

Mae'r newid yn ACau mewn seddi sicr yn debygol o fod yn arafach na'r newid yn ACau mewn seddi ymylol, sy'n ei gwneud yn fwy anodd i bleidiau wneud cynnydd cyflym rhwng etholiadau unigol. Yn sedd fwyaf sicr Llafur lle mae'r AC sy'n ei dal yn ymddeol (Ogwr), mae'n debygol y bydd dyn yn disodli dynes. Serch hynny, yn nhair sedd ddiogelaf nesaf y blaid, y tebyg yw y bydd menywod yn disodli dynion mewn dwy (Merthyr Tudful a Rhymni, Islwyn) ac yn sedd

3 Arfon (Plaid Cymru), Islwyn (Llafur), Merthyr Tudful a Rhymni (Llafur).
4 Ogwr (Llafur).
5 Sedd gyntaf y Ceidwadwyr ar restr Gorllewin De Cymru a Llafur yn Nwyrain Abertawe.
6 De Caerdydd a Phenarth, De Clwyd, Islwyn, Pontypridd, Dwyrain Abertawe.
7 Ail sedd Llafur ar restr Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac ail sedd y Ceidwadwyr ar restr Gogledd Cymru.

gadarn Llafur yng Nghwm Cynon, y tebyg yw y bydd y ddynes sy'n ymgeisydd ar ran Llafur yn disodli'r ddynes sy'n gadael ei rôl fel AC.

Arfon yw sedd etholaeth fwyaf sicr Plaid Cymru lle mae ei deiliad yn ymddeol a'r tebyg yw y bydd dynes yn disodli dyn fel AC. Ail sedd etholaeth fwyaf sicr y blaid lle mae'n debygol y bydd dyn yn cymryd lle dyn fel AC. Fel Llafur yn Ogwr, mae'r dyn fydd yn AC newydd Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr yn debygol o fod yn gyn-AS. Nid oes unrhyw ACau mewn etholaethau sicr a gaiff eu dal gan naill ai'r Ceidwadwyr neu'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ymddeol yn yr etholiad hwn.

O'r saith sedd restr ranbarthol ddiogel, mae deiliaid yn amddiffyn pum sedd (pedair dynes ac un dyn). Mae'r ddwy sedd ranbarthol sicr sy'n weddill yn Nwyrain De Cymru lle mae Ceidwadwyr a Phlaid Cymru'n amddiffyn un sedd sicr yr un ac un sedd fregus yr un. Mae'r ddwy sedd ranbarthol sicr yn cael eu hamddiffyn gan ddynion ac mae'r ddwy sedd fwy bregus yn cael eu hymladd gan fenywod. Yn yr etholiad diwethaf, cafodd un o'r ddwy sedd ranbarthol sicr (sedd gyntaf Plaid Cymru) ei hamddiffyn gan ddynes.

**Er y gwneir ychydig o gynnydd gan bleidiau o ran dethol menywod mewn seddi y gellir eu hennill, mae menywod o hyd yn llawer mwy tebygol o ymladd seddi ymylol na dynion. Mae pob un o'r un ar ddeg o seddi etholaeth ymylol, ac eithrio un, yn cael eu hamddiffyn gan fenywod; ond ymysg seddi etholaeth sicr, mae menywod yn amddiffyn ychydig dros chwarter. Mae'r darlun yn llawer gwell ar gyfer y rhestr ranbarthol, sy'n awgrymu bod cynrychiolaeth gyfrannol yn rhoi gwell cyfle i'r pleidiau weithredu. Serch hynny, o gymharu â'r etholiad blaenorol, mae menywod yn dal i fod yn fwy tebygol o ymladd seddi rhanbarthol bregus na dynion.**

# 2 Y RHAGAMCANIAD CYFFREDINOL

Mae ein rhagolygon yn seiliedig ar bedair sefyllfa. Gellid disgrifio Sefyllfa Un fel noson gymharol dda i Lafur. Mae ei chyfran o'r bleidlais wedi lleihau rhywfaint, ond mae'r blaid wedi osgoi colledion sylweddol, gan golli seddi ymylol Llanelli a Gogledd Caerdydd, ond llwyddo i amddiffyn Caerdydd Canolog, Bro Morgannwg, Delyn, Wrecsam, Gŵyr a'u hail sedd ranbarthol ar restr Canolbarth a Gorllewin Cymru. Lluniwyd y sefyllfa hon gan ddefnyddio tueddiadau diweddar mewn arolygon barn a pherfformiad etholiadol y pleidiau, ynghyd â gwybodaeth leol ynglŷn â'r rasys unigol. Canlyniad y sefyllfa hon fyddai Llafur (28), Ceidwadwyr (11), Plaid Cymru (11), UKIP (9) a'r Democratiaid Rhyddfrydol (1).

Mae Sefyllfa Dau yn cynrychioli noson wael i Lafur, lle mae'r blaid yn colli sawl sedd, yn bennaf i'r Ceidwadwyr. Mae Llafur yn colli Caerdydd Canolog, Gogledd Caerdydd, Delyn, Gŵyr, Llanelli, Dyffryn Clwyd, Bro Morgannwg a Wrecsam. Mae ei pherfformiad gwael yng Ngogledd Ddwyrain Cymru yn arwain at Lafur yn ennill sedd ranbarthol ar restr Gogledd Cymru. Mae Kirsty Williams yn gwrthsefyll yr her gan y Ceidwadwyr ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed. Canlyniad y sefyllfa hon fyddai Llafur (23), Ceidwadwyr (15), Plaid Cymru (11), UKIP (9) a'r Democratiaid Rhyddfrydol (2).

Mae Sefyllfa Tri yn defnyddio data o Arolwg Barn Cyn Etholiad a gafwyd yn mis Mawrth o Astudiaeth Etholiad Cymru (2016)[8] a chaiff ei modelu ar ogwydd cenedlaethol cyson. Mae Llafur yn colli Caerdydd Canolog, Gogledd Caerdydd a Llanelli. Canlyniad y sefyllfa hon fyddai Llafur (27), Ceidwadwyr (13), Plaid Cymru (13), UKIP (7) a'r Democratiaid Rhyddfrydol (2).

8 http://blogs.cardiff.ac.uk/electionsinwales/2016/03/22/national-assembly-voting-intentions-the-latest-evidence/

Mae Sefyllfa Pedwar eto'n defnyddio data o Arolwg Barn Cyn Etholiad mis Mawrth, ond caiff ei modelu ar ogwydd cymhareb. Yr unig etholaeth a gaiff ei dal gan Lafur sy'n newid dwylo yw Llanelli ac mae'r Ceidwadwyr yn trechu'r Democratiaid Rhyddfrydol ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed. Canlyniad y sefyllfa hon yw Llafur (29), Ceidwadwyr (13), Plaid Cymru (12), UKIP (6).

## Nifer y menywod yn y Cynulliad (rhagamcaniad)

| Sefyllfa | Menywod (Cyfanswm) | Menywod (%) | Dynion (Cyfanswm) | Dynion (%) |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 27 | 45% | 33 | 55% |
| 2 | 22 | 37% | 38 | 63% |
| 3 | 28 | 47% | 32 | 53% |
| 4 | 24 | 40% | 36 | 60% |

## Nifer y menywod yn y Cynulliad (hanesyddol)

| Tymor | Menywod (Cyfanswm) | Menywod (%) | Dynion (Cyfanswm) | Dynion (%) |
|---|---|---|---|---|
| 2011-16 | 25 | 42% | 35 | 58% |
| 2007-11 | 28 | 47% | 32 | 53% |
| 2005-07[9] | 31 | 52% | 29 | 48% |
| 2003-05 | 30 | 50% | 30 | 50% |
| 1999-2003 | 24 | 40% | 36 | 60% |

9 Yn ystod tymor 2003-7 y Cynulliad, cynhaliwyd isetholiad (Blaenau Gwent) lle disodlwyd dyn gan ddynes.

Nifer y menywod yn y Cynulliad (hanesyddol yn ôl tymor)

Cyfanswm y dynion a menywod a etholwyd, ym mhob etholiad (1999-2011)




Cyfanswm y dynion a menywod a etholwyd yn 1999




Cyfanswm y dynion a menywod a etholwyd yn 2003




Cyfanswm y dynion a menywod a etholwyd yn 2007




Cyfanswm y dynion a menywod a etholwyd yn 2011



# 3 Y PLEIDIAU GWLEIDYDDOL

## Llafur

Ers dechrau datganoli, mae'r Blaid Lafur wedi cyflwyno ystod o strategaethau ystyriol a fwriadwyd i gynyddu'r nifer o fenywod sy'n ymgeiswyr yn etholiadau'r Cynulliad. Ym 1999, mabwysiadodd y blaid ddull o efeillio (lle bu i ddwy etholaeth redeg detholiadau cyswllt ar gyfer un ymgeisydd sy'n ddyn ac un sy'n ddynes). Mae'r blaid hefyd wedi defnyddio rhestrau sydd ond yn cynnwys menywod mewn etholaethau, a llefydd wedi'u neilltuo a/neu gydbwyso rhyweddol (lle caiff yr un nifer o ddynion a menywod eu dethol) ar gyfer rhestrau rhanbarthol. Gan fod Llafur wedi dominyddu'r dirwedd etholiadol ddatganoledig, mae mesurau'r pleidiau i hybu cydraddoldeb rhyweddol wedi effeithio'n sylweddol ar gydbwysedd rhyweddol cyffredinol y Cynulliad Cenedlaethol.

Ym mhob etholiad rhwng 1999 a 2011, menywod oedd mwyafrif Grŵp Llafur yn y Cynulliad. Yn etholiad cyntaf y Cynulliad, etholwyd 16 o fenywod a 12 o ddynion yn ACau Llafur. Bu cynnydd yn nifer y menywod a etholwyd yn etholiad 2003 pan etholwyd 19 o fenywod ac 11 o ddynion, ond bu lleihad yn 2007 wrth i 16 o fenywod a 10 dyn ennill, a lleihad pellach yn 2011 pan oedd eu grŵp o 30 yn cynnwys yr un nifer o ddynion a menywod.

Rydym wedi ystyried ugain o 30 sedd bresennol Llafur yn rhai sicr (un deg naw o etholaethau ac un sedd ranbarthol) a deg yn rhai bregus (naw etholaeth ac un sedd ranbarthol[10]). Caiff saith o'r ugain o seddi sicr eu hamddiffyn gan fenywod (cynnydd o un ers etholiad 2011). O'r deg sedd fregus sy'n weddill gan Lafur o 2011, menywod sy'n amddiffyn wyth ohonynt. Yn y Blaid Lafur, fel yn y pleidiau eraill, ac eithrio'r Democratiaid Rhyddfrydol, mae menywod yn fwy tebygol o amddiffyn seddi bregus na dynion. Rydym wedi tynnu sylw at bedair sedd lle gallai Llafur ennill tir. O'r pedair yma, dim ond un ddynes sy'n herio dros Lafur, ac mae hynny ar restr ranbarthol[11].

**Ein rhagamcaniad yw y bydd rhwng 39% a 52% o ACau Llafur yn fenywod yn y Cynulliad nesaf, a'r canlyniad tebycaf fydd rhywle tua phen uchaf yr ystod hon.**

10 Seddi y mae Llafur yn eu dal ac mewn peryg o'u colli: Caerdydd Canolog, Llanelli, Gogledd Caerdydd, Bro Morgannwg, Delyn, De Clwyd, Dyffryn Clwyd, Wrecsam, Gŵyr, Canolbarth a Gorllewin Cymru (2);

11 Seddi nad yw Llafur yn eu dal ond gellir eu hennill: Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, Aberconwy, Preseli Sir Benfro, Gogledd Cymru (1).

## Ceidwadwyr

Dechreuodd hanes y Ceidwadwyr o gynrychiolaeth menywod yn y Cynulliad Cenedlaethol yn wael ym 1999, pan oedd y grŵp yn enwog am gael mwy o ACau o'r enw 'David' nag ACau oedd yn fenywod. Gwellodd safle'r blaid yn 2003 pan ymunodd dwy ddynes (Laura Jones a Lisa Francis – daeth y ddwy yn drydydd ar restr Dwyrain De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru) â'r un ar ddeg o aelodau yng ngrŵp y Ceidwadwyr. Cwympodd y Ceidwadwyr yn ôl yn yr etholiad nesaf yn 2007 pan gollodd Laura Jones a Lisa Francis eu seddi. Angela Burns oedd yr unig Geidwadwr a oedd yn ddynes i ennill sedd etholaeth Cynulliad a'r unig ddynes mewn grŵp o ddeuddeg o aelodau. Yn yr etholiad diwethaf yn 2011, cynyddodd y blaid ei chynrychiolaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol i un deg pedwar pan ymunodd Janet Finch-Saunders, Antoinette Sandbach a Suzy Davies ag Angela Burns fel unig ACau benywaidd oedd gan y blaid. Suzy Davies yw'r ddynes gyntaf o blith y Ceidwadwyr i gael ei hethol yn AC mewn sedd a ystyriwyd iddi fod yn ddiogel.

O'r un deg pedwar o seddi sydd gan y Ceidwadwyr, ystyriwn chwech ohonynt i fod yn rhai sicr, a'r wyth sy'n weddill yn fregus[12]. O'r chwe sedd sicr, mae tair ohonynt yn seddi etholaeth a thair yn seddi rhanbarthol; mae pob un, ac eithrio un (eu sedd gyntaf ar restr Gorllewin De Cymru), yn cael eu hamddiffyn gan ddyn. Mae menywod yn ymladd hanner seddi bregus y blaid; sy'n golygu fod 80% o'r ymgeiswyr benywaidd sy'n amddiffyn seddi Ceidwadol yn amddiffyn seddi mwyaf bregus y blaid. Gallai'r Ceidwadwyr ennill hyd at naw sedd ychwanegol (wyth etholaeth ac un sedd restr); ond o'r naw, dim ond un sy'n cael ei hymladd gan ddynes.

**Ein rhagamcaniad yw y bydd rhwng 15% a 46% o ACau y Ceidwadwyr yn fenywod yn y Cynulliad nesaf, a'r canlyniad tebycaf fydd rhywle yng nghanol yr ystod hon.**

12 Mae natur anragweladwy'r System Aelodau Ychwanegol, y dull presennol o ethol ACau, yn golygu y gallai unrhyw gynnydd gan y Ceidwadwyr mewn seddi etholaeth (yn enwedig yng Ngogledd Cymru ac yng Nghanol De Cymru) ddod ar draul colledion ar y rhestr ranbarthol.

## Plaid Cymru

Mae Plaid Cymru, fel y Blaid Lafur, wedi cyflwyno mesurau i ddethol mwy o fenywod yn ymgeiswyr. Er nad yw'r Blaid wedi defnyddio rhestrau menywod-yn-unig, mae hi wedi defnyddio llefydd wedi eu neilltuo a chydbwyso rhyweddol yn y gorffennol. O'r grŵp o un deg saith a etholwyd ym 1999, roedd chwech ohonynt yn fenywod. Daeth menywod Plaid Cymru ar frig rhestrau rhanbarthol, ac eithrio Canolbarth a Gorllewin Cymru lle roedd prif ymgeisydd y blaid, Helen Mary Jones, eisoes wedi cael ei hethol yn etholaeth Llanelli. O'r pedair sedd oedd gan y Blaid yn San Steffan ym 1997, ymladdwyd tair gan ddynion yn etholiad y Cynulliad a gynhaliwyd yn fuan wedyn[13]. Yn etholiad 2003, colloddd y blaid bump o'i saith sedd, gan adael grŵp o chwe dyn a phum dynes. Gwnaeth y blaid gynnydd yn 2007 a chyrhaeddodd y cydbwysedd rhyweddol y bu bron iddi gyrraedd yn yr etholiad blaenorol. O'r pymtheg AC Plaid Cymru a etholwyd yn 2007, roedd saith yn fenywod. Bu 2011 yn etholiad anodd i'r blaid am iddi golli bron i draean o'i seddi. O'r un ar ddeg o ACau Plaid Cymru a ddychwelodd yn yr etholiad diwethaf, roedd pedair yn fenywod a saith yn ddynion.

Rydym wedi ystyried wyth o un ar ddeg sedd Plaid Cymru'n sicr a thair yn fregus, ac rydym hefyd wedi tynnu sylw at chwech arall y gallai eu hennill[14]. Mae menywod yn amddiffyn tair sedd sicr a dwy sedd fregus. O'r saith y mae'n bosib eu hennill, mae menywod yn herio mewn dwy sedd.

**Ein rhagamcaniad yw y bydd rhwng 42% a 50% o ACau Plaid Cymru'n fenywod yn y Cynulliad nesaf, a'r canlyniad tebycaf fydd rhywle yng nghanol yr ystod hon.**

13 Bu i Dafydd Elis Thomas, Ieuan Wyn Jones a Dafydd Wigley ymladd eu hetholaethau Cynulliad eu hunain a bu i Cynog Dafis, AS Ceredigion, ymladd rhestr Canolbarth a Gorllewin Cymru.

14 Nid ydym wedi cynnwys Rhondda ymysg y chwe chynnydd posib, er y tynnwyd sylw at yr etholaeth gan Blaid Cymru fel sedd darged (wedi iddi gael ei dal yn flaenorol gan y blaid rhwng 1999 a 2003) ac er bod y blaid yn cynnig dynes fel ymgeisydd.

## Democratiaid Rhyddfrydol

Nid yw'r Democratiaid Rhyddfrydol erioed wedi defnyddio mesurau gweithredu cadarnhaol fel llefydd wedi'u neilltuo a rhestrau menywod-yn-unig i ddethol ymgeiswyr ar gyfer y Cynulliad, ac eto rhwng 1999 a 2011, roedd gan y blaid gydbwysedd rhyweddol perffaith yn y Cynulliad[15]. Collodd y blaid sedd yn etholiad 2011 (Dwyrain De Cymru) a fyddai wedi cael ei hennill gan ddynes pe bai'r blaid wedi bod yn llwyddiannus. Detholwyd dyn yn ymgeisydd i amddiffyn etholaeth y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghanol Caerdydd, ond collodd i ddynes oedd yn herio dros Lafur. O ganlyniad, enillodd y blaid sedd ranbarthol (Canol De Cymru) a fyddai wedi cael ei chymryd gan ddyn, ond yn dilyn ei waharddiad, fe'i henillwyd gan ddynes. Pe na bai hyn wedi digwydd, ni fyddai ond un o bum AC y Democratiaid Rhyddfrydol wedi bod yn ddynes.

Yn yr etholiad hwn, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi llwyddo i osod menywod mewn seddi y gellir eu hennill heb unrhyw fesurau cadarnhaol. Mae'r blaid wedi dethol menywod mewn cystadlaethau agored ym mhob un o'i phedair etholaeth darged[16]. O'r pum sedd sydd gan y Democratiaid Rhyddfrydol ar hyn o bryd yn y Cynulliad Cenedlaethol, rydym wedi ystyried pob un yn fregus, heb ragdybio unrhyw seddi sicr. Gallai'r blaid wneud cynnydd mewn pedair sedd (tair etholaeth ac un rhanbarthol). Mae menywod yn amddiffyn dwy o'r pum sedd fregus ac yn herio ym mhob sedd y gellir eu hennill. Os yw'r Democratiaid Rhyddfrydol yn adennill/ennill seddi, y disgwyl yw mai'r rheiny fydd Brycheiniog a Sir Faesyfed neu Ganolbarth a Gorllewin Cymru a/neu Ganol De Cymru neu Ganol Caerdydd. O ystyried ansicrwydd yr etholiad i'r Democratiaid Rhyddfrydol, rydym yn disgwyl bod gan ei ACau sy'n fenywod well cyfle o gael eu hailethol na'r dynion.

**Ein rhagamcaniad ar gyfer y Cynulliad nesaf yw y bydd rhwng pob un neu dim o'r Democratiaid Rhyddfrydol a etholir yn fenywod. Serch hynny, y sefyllfa fwyaf tebygol os digwydd i'r Democratiaid Rhyddfrydol gael eu hail-ethol yw y bydd o leiaf hanner y bloc yn fenywod.**

15 Ym 1999, yn 2003 ac yn 2007, etholwyd chwe AC o'r blaid: tri dyn a thair dynes.
16 Brycheiniog a Sir Faesyfed, Canol Caerdydd, Ceredigion a Sir Drefaldwyn.

## UKIP

Nid yw UKIP wedi ennill unrhyw seddi yn y Cynulliad Cenedlaethol hyd yma, er y disgwyl yw y bydd y blaid yn newid hynny. Yn 2011, roedd pob un o bedwar prif ymgeisydd y blaid ym mhob un o'r pum rhanbarth Cynulliad yn ddynion. Serch hynny, mae'r blaid wedi gwneud cynnydd ac mae'n fwy na thebygol y caiff dynes ei hethol yn AC UKIP ym Mai 2016. Heb unrhyw ddeiliaid presennol, nid oes gan y blaid unrhyw seddi sicr na bregus. Rydym wedi tynnu sylw at ddeg sedd (dwy ym mhob rhanbarth) a'u hystyried yn rhai y gall y blaid eu hennill; mae'r blaid yn debygol o ennill o leiaf un sedd ym mhob rhanbarth. O'r deg sedd bosib y gall y blaid eu hennill, dewiswyd menywod i ymladd tair ohonynt; ond wedi i ail ymgeisydd y blaid ar restr Canol De Cymru ymddiswyddo yn Ebrill, mae'r ffigwr wedi gostwng i ddwy. Mewn dim ond un rhanbarth mae menyw ar frig eu rhestr ymgeiswyr (Gorllewin De Cymru). Yn yr etholiad hwn, bydd UKIP yn cynnig wyth dyn a dwy ddynes mewn seddi y gellir eu hennill.

**Ein rhagamcaniad yw y bydd rhwng 14% a 33% o ACau UKIP a etholir yn fenywod yn y Cynulliad nesaf, a'r canlyniad tebycaf fydd rhywle tua gwaelod yr ystod hon.**

## Plaid Werdd

Fel UKIP, nid yw'r Blaid Werdd wedi ennill unrhyw seddi yn y Cynulliad Cenedlaethol hyd yma a'i chyfle gorau o ennill sedd fydd ar y rhestrau rhanbarthol. Mae'r Blaid Werdd wedi dethol menywod yn brif ymgeiswyr ym mhedwar o'r pum rhanbarth, gan gynnwys Canol De Cymru, sef ei rhanbarth darged. Mae'r arolygon presennol yn awgrymu na chaiff unrhyw ymgeisydd y Blaid Werdd ei ethol ym Mai 2016.

**Ein rhagamcaniad yw na chaiff unrhyw ymgeisydd y Blaid Werdd ei ethol yn y Cynulliad nesaf, ond pe caiff un ei ethol, mae'n fwy na thebyg mai menyw fyddai.**

# 4 Atodlen

Tabl 1: Ymgeisydd sy'n amddiffyn mewn etholaethau, yn ôl rhywedd, a mwyafrif

| Etholaeth | Mwyafrif (%) | Plaid | AC Presennol | Ymgeisydd sy'n Amddiffyn |
|---|---|---|---|---|
| Canol Caerdydd | 0.20% | Llaf | M | M |
| Llanelli | 0.30% | Llaf | D | D |
| Gogledd Caerdydd | 5.20% | Llaf | M | M |
| Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro | 5.30% | Ceid | M | M |
| Ceredigion | 6.10% | PC | M | M |
| Aberconwy | 7.70% | Ceid | M | M |
| Preseli Sir Benfro | 8% | Ceid | D | D |
| Brycheiniog a Sir Faesyfed | 9.70% | DRh | M | M |
| Sir Drefaldwyn | 10.10% | Ceid | D | D |
| Bro Morgannwg | 11.40% | Llaf | M | M |
| Ynys Môn | 12.20% | PC | D | D |
| Delyn | 12.40% | Llaf | M | M |
| De Clwyd | 13.30% | Llaf | D | D |
| Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr | 14.90% | PC | D | D |
| Gorllewin Clwyd | 16.90% | Ceid | D | D |
| Dyffryn Clwyd | 17.40% | Llaf | M | M |
| Wrecsam | 17.90% | Llaf | M | M |
| Gŵyr | 18.20% | Llaf | M | M |
| Gorllewin Casnewydd | 18.30% | Llaf | M | M |
| Caerffili | 19.30% | Llaf | D | D |
| Mynwy | 20.40% | Ceid | D | D |
| Gorllewin Caerdydd | 21.30% | Llaf | D | D |
| Gorllewin Abertawe | 21.30% | Llaf | M | M |
| De Caerdydd a Phenarth | 22.80% | Llaf | D | D |

Tabl 1: Ymgeisydd sy'n amddiffyn mewn etholaethau, yn ôl rhywedd, a mwyafrif (parhaodd)

| Etholaeth | Mwyafrif (%) | Plaid | AC Presennol | Ymgeisydd sy'n Amddiffyn |
|---|---|---|---|---|
| Alyn a Glannau Dyfrdwy | 24.50% | Llaf | D | D |
| Dwyfor Meirionnydd | 26.10% | PC | D | D |
| Castell-nedd | 26.80% | Llaf | M | D |
| Torfaen | 27.30% | Llaf | M | M |
| Dwyrain Casnewydd | 27.70% | Llaf | D | D |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 28.20% | Llaf | D | D |
| Arfon | 30.50% | PC | D | M |
| Pontypridd: | 33% | Llaf | D | D |
| Rhondda | 33.60% | Llaf | D | D |
| Cwm Cynon | 34.70% | Llaf | M | M |
| Islwyn | 36.30% | Llaf | D | M |
| Merthyr Tudful a Rhymni | 36.50% | Llaf | D | M |
| Dwyrain Abertawe | 43.80% | Llaf | D | D |
| Blaenau Gwent | 45.10% | Llaf | D | D |
| Ogwr | 47.30% | Llaf | M | D |
| Aberafan | 49.30% | Llaf | D | D |

Tabl 2: Ymgeiswyr sy'n amddiffyn mewn etholaethau lle mae'r deilydd yn ymddeol

| Etholaeth | Mwyafrif (%) | Plaid sy'n Amddiffyn | AC Presennol | Ymgeisydd sy'n Amddiffyn |
|---|---|---|---|---|
| Llanelli | 0.30% | Llaf | D | D |
| Ynys Môn | 12.20% | PC | D | D |
| Delyn | 12.40% | Llaf | M | M |
| Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr | 14.90% | PC | D | D |
| Gŵyr | 18.20% | Llaf | M | M |
| Gorllewin Casnewydd | 18.30% | Llaf | M | M |
| Caerffili | 19.30% | Llaf | D | D |
| Castell-nedd | 26.80% | Llaf | M | D |
| Arfon | 30.50% | PC | D | M |
| Cwm Cynon | 34.70% | Llaf | M | M |
| Islwyn | 36.30% | Llaf | D | M |
| Merthyr Tudful a Rhymni | 36.50% | Llaf | D | M |
| Ogwr | 47.30% | Llaf | M | D |

Tabl 3: Ymgeiswyr sy'n amddiffyn mewn seddi rhanbarthol lle mae'r deilydd yn ymddeol

| Sedd ranbarthol | Plaid | AC Presennol | Ymgeisydd sy'n Amddiffyn |
|---|---|---|---|
| Canolbarth a Gorllewin Cymru - 2il sedd Llafur | Llaf | M | M |
| Gogledd Cymru - 2il sedd y Ceidwadwyr | Ceid | M | M |
| Dwyrain De Cymru - 2il sedd y Ceidwadwyr | Ceid | D | M |
| Dwyrain De Cymru - Sedd 1af Plaid Cymru | PC | M | D |
| Dwyrain De Cymru - 2il sedd Plaid Cymru | PC | D | M |
| Gorllewin De Cymru - 2il sedd y Ceidwadwyr | Ceid | D | D |

Tabl 4: Ymgeiswyr sy'n amddiffyn mewn seddi ymylol

| Etholaeth | Mwyafrif(%) | Plaid | AC Presennol | Ymgeisydd sy'n Amddiffyn | Ymgeisydd sy'n Herio |
|---|---|---|---|---|---|
| Canol Caerdydd | 0.20% | Llaf | M | M | M |
| Llanelli | 0.30% | Llaf | D | D | M |
| Gogledd Caerdydd | 5.20% | Llaf | M | M | M |
| Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro | 5.30% | Ceid | M | M | D |
| Aberconwy | 7.70% | Ceid | M | M | D |
| Brycheiniog a Sir Faesyfed | 9.70% | DRh | M | M | D |
| Bro Morgannwg | 11.40% | Llaf | M | M | D |
| Delyn | 12.40% | Llaf | M | M | D |
| Dyffryn Clwyd | 17.40% | Llaf | M | M | D |
| Wrecsam | 17.90% | Llaf | M | M | D |
| Gŵyr | 18.20% | Llaf | M | M | D |

Tabl 5: Ymgeisydd sy'n amddiffyn mewn etholaethau sicr, yn ôl rhywedd

| Etholaeth | Mwyafrif (%) | Plaid sy'n Amddiffyn | AC Presennol | Ymgeisydd sy'n Amddiffyn |
|---|---|---|---|---|
| Ceredigion | 6.10% | PC | M | M |
| Preseli Sir Benfro | 8% | Ceid | D | D |
| Sir Drefaldwyn | 10.10% | Ceid | D | D |
| Ynys Môn | 12.20% | PC | D | D |
| De Clwyd | 13.30% | Llaf | D | D |
| Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr | 14.90% | PC | D | D |
| Gorllewin Clwyd | 16.90% | Ceid | D | D |
| Gorllewin Casnewydd | 18.30% | Llaf | M | M |
| Caerffili | 19.30% | Llaf | D | D |
| Mynwy | 20.40% | Ceid | D | D |
| Gorllewin Caerdydd | 21.30% | Llaf | D | D |
| Gorllewin Abertawe | 21.30% | Llaf | M | M |
| De Caerdydd a Phenarth | 22.80% | Llaf | D | D |
| Alyn a Glannau Dyfrdwy | 24.50% | Llaf | D | D |
| Dwyfor Meirionnydd | 26.10% | PC | D | D |
| Castell-nedd | 26.80% | Llaf | M | D |
| Torfaen | 27.30% | Llaf | M | M |
| Dwyrain Casnewydd | 27.70% | Llaf | D | D |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 28.20% | Llaf | D | D |
| Arfon | 30.50% | PC | D | M |
| Pontypridd | 33% | Llaf | D | D |
| Rhondda | 33.60% | Llaf | D | D |
| Cwm Cynon | 34.70% | Llaf | M | M |
| Islwyn | 36.30% | Llaf | D | M |
| Merthyr Tudful a Rhymni | 36.50% | Llaf | D | M |
| Dwyrain Abertawe | 43.80% | Llaf | D | D |
| Blaenau Gwent | 45.10% | Llaf | D | D |
| Ogwr | 47.30% | Llaf | M | D |
| Aberafan | 49.30% | Llaf | D | D |

## Tabl 6: Ymgeisydd sy'n amddiffyn mewn seddi rhanbarthol sicr, yn ôl rhywedd

| Sedd ranbarthol | Plaid sy'n Amddiffyn | AC Presennol | Ymgeisydd sy'n Amddiffyn |
|---|---|---|---|
| Canolbarth a Gorllewin Cymru - Sedd 1af Llafur | Llaf | M | M |
| Canol De Cymru - Sedd 1af y Ceidwadwyr | Ceid | D | D |
| Canol De Cymru - Sedd 1af Plaid Cymru | PC | M | M |
| Dwyrain De Cymru - Sedd 1af Plaid Cymru | PC | M | D |
| Dwyrain De Cymru - Sedd 1af y Ceidwadwyr | Ceid | D | D |
| Gorllewin De Cymru - Sedd 1af Plaid Cymru | PC | M | M |
| Gorllewin De Cymru - Sedd 1af y Ceidwadwyr | Ceid | M | M |

## Tabl 7: Cynrychiolaeth hanesyddol y pleidiau yn y Cynulliad ac yn San Steffan, gan fenywod

| Etholaethau nad ydynt erioed wedi cael dynes yn AC (1999-2011) | Erioed wedi cael menyw yn AS | Bydd yn dal i fod heb AC neu AS sy'n ddynes (yn hanesyddol) ar ôl 2016 |
|---|---|---|
| Aberafan | Aberafan | Aberafan |
| Alyn a Glannau Dyfrdwy | | |
| Arfon | Arfon* | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | | |
| Caerffili | | |
| Gorllewin Caerdydd | Gorllewin Caerdydd | Gorllewin Caerdydd |
| Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr | | |
| Gorllewin Clwyd | Gorllewin Clwyd | Gorllewin Clwyd |
| Merthyr Tudful a Rhymni | Merthyr Tudful a Rhymni | |
| Mynwy | Mynwy | Mynwy |
| Sir Drefaldwyn | Sir Drefaldwyn | Sir Drefaldwyn |
| Dwyrain Casnewydd | | |
| Rhondda | Rhondda | Rhondda |
| Ynys Môn | | |

* Rhannau yng Nghonwy

## Tabl 8: Llafur Menywod

| Seddi Sicr | Seddi Bregus | Cynnydd Posib |
|---|---|---|
| Merthyr Tudful a Rhymni | Canol Caerdydd | Gogledd Cymru (1) |
| Islwyn | Gogledd Caerdydd | |
| Cwm Cynon | Bro Morgannwg | |
| Torfaen | Delyn | |
| Gorllewin Abertawe | Dyffryn Clwyd | |
| Gorllewin Casnewydd | Wrecsam | |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru (1) | Gŵyr | |
| | Canolbarth a Gorllewin Cymru (2) | |

## Dynion

| Seddi Sicr | Seddi Bregus | Cynnydd Posib |
|---|---|---|
| Aberafan | Llanelli | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ogwr | De Clwyd | Aberconwy |
| Blaenau Gwent | | Preseli Sir Benfro |
| Dwyrain Abertawe | | |
| Rhondda | | |
| Pontypridd | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | | |
| Dwyrain Casnewydd | | |
| Castell-nedd | | |
| Alyn a Glannau Dyfrdwy | | |
| De Caerdydd a Phenarth | | |
| Gorllewin Caerdydd | | |
| Caerffili | | |

## Tabl 9: Ceidwadwyr Menywod

| Seddi Sicr | Seddi Bregus | Cynnydd Posib |
|---|---|---|
| Gorllewin De Cymru (1) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro | Gogledd Caerdydd |
| | Aberconwy | |
| | Gogledd Cymru (2) | |
| | Dwyrain De Cymru (2) | |

## Dynion

| Seddi Sicr | Seddi Bregus | Cynnydd Posib |
|---|---|---|
| Mynwy | Preseli Sir Benfro | Brycheiniog a Sir Faesyfed |
| Gorllewin Clwyd | Gogledd Cymru (1) | Bro Morgannwg |
| Sir Drefaldwyn | Canol De Cymru (2) | Delyn |
| Canol De Cymru (1) | Gorllewin De Cymru (2) | De Clwyd |
| Dwyrain De Cymru (1) | | Wrecsam |
| | | Gŵyr |
| | | Canolbarth a Gorllewin Cymru (1) |

## Tabl 10: Plaid Cymru Menywod

| Seddi Sicr | Seddi Bregus | Cynnydd Posib |
|---|---|---|
| Arfon | Ceredigion | Llanelli |
| Canol De Cymru (1) | Dwyrain De Cymru (2) | Rhondda |
| Gorllewin De Cymru (1) | | Canolbarth a Gorllewin Cymru (2) |

## Dynion

| Seddi Sicr | Seddi Bregus | Cynnydd Posib |
|---|---|---|
| Dwyfor Meirionnydd | Canolbarth a Gorllewin Cymru (1) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr | | Aberconwy |
| Ynys Môn | | Canol De Cymru (2) |
| Gogledd Cymru (1) | | Gorllewin De Cymru (2) |
| Dwyrain De Cymru (1) | | |

## Tabl 11: Democratiaid Rhyddfrydol Menywod

| Seddi Sicr | Seddi Bregus | Cynnydd Posib |
|---|---|---|
| | Brycheiniog a Sir Faesyfed | Canol Caerdydd |
| | Canol De Cymru (1) | Ceredigion |
| | | Sir Drefaldwyn |
| | | Dwyrain De Cymru (1) |

### Dynion

| Seddi Sicr | Seddi Bregus | Cynnydd Posib |
|---|---|---|
| | Canolbarth a Gorllewin Cymru (1) | |
| | Gogledd Cymru (1) | |
| | Gorllewin De Cymru (1) | |

## Tabl 12: UKIP Menywod

| Seddi Sicr | Seddi Bregus | Cynnydd Posib |
|---|---|---|
| | | Gorllewin De Cymru (1) |
| | | Canol De Cymru (2) |
| | | Gogledd Cymru (2) |

### Dynion

| Seddi Sicr | Seddi Bregus | Cynnydd Posib |
|---|---|---|
| | | Canolbarth a Gorllewin Cymru (1) |
| | | Gogledd Cymru (1) |
| | | Canol De Cymru (1) |
| | | Dwyrain De Cymru (1) |
| | | Canolbarth a Gorllewin Cymru (2) |
| | | Dwyrain De Cymru (2) |
| | | Gorllewin De Cymru (2) |

## Tabl 13: Plaid Werdd Menywod

| Seddi Sicr | Seddi Bregus | Cynnydd Posib |
|---|---|---|
| | | Canol De Cymru (1) |

### Dynion

| Seddi Sicr | Seddi Bregus | Cynnydd Posib |
|---|---|---|
| | | |

## Tabl 14: ACau a etholir, fesul etholiad a rhywedd

| ACau sy'n ddynion | Etholwyd yn Gyntaf | ACau sy'n fenywod | Etholwyd yn Gyntaf |
|---|---|---|---|
| Mick Bates | 1 | Lorraine Barrett | 1 |
| Peter Black | 1 | Eleanor Burnham | 1 |
| Nick Bourne | 1 | Rosemary Butler | 1 |
| Alun Cairns | 1 | Christine Chapman | 1 |
| Cynog Dafis | 1 | Jane Davidson | 1 |
| Andrew Davies | 1 | Sue Essex | 1 |
| David Davies | 1 | Delyth Evans | 1 |
| Geraint Davies | 1 | Val Feld | 1 |
| Glyn Davies | 1 | Janice Gregory | 1 |
| Ron Davies | 1 | Christine Gwyther | 1 |
| Richard Edwards | 1 | Alison Halford | 1 |
| Dafydd Elis-Thomas | 1 | Edwina Hart | 1 |
| Mike German | 1 | Christine Humphreys | 1 |
| Brian Gibbons | 1 | Jane Hutt | 1 |
| William Graham | 1 | Pauline Jarman | 1 |
| John Griffiths | 1 | Ann Jones | 1 |
| Brian Hancock | 1 | Elin Jones | 1 |
| Carwyn Jones | 1 | Helen Mary Jones | 1 |
| David Jones | 1 | Val Lloyd | 1 |
| Gareth Jones | 1 | Lynne Neagle | 1 |
| Ieuan Wyn Jones | 1 | Jenny Randerson | 1 |
| Peter Law | 1 | Janet Ryder | 1 |
| Huw Lewis | 1 | Karen Sinclair | 1 |
| David Lloyd | 1 | Gwenda Thomas | 1 |
| John Marek | 1 | Kirsty Williams | 1 |
| David Melding | 1 | | |
| Alun Michael | 1 | | |
| Tom Middlehurst | 1 | | |
| Jonathan Morgan | 1 | | |
| Rhodri Morgan | 1 | | |
| Alun Pugh | 1 | | |
| Rod Richards | 1 | | |
| Peter Rogers | 1 | | |
| Owen John Thomas | 1 | | |
| Rhodri Glyn Thomas | 1 | | |
| Dafydd Wigley | 1 | | |

Tabl 14: ACau a etholir, fesul etholiad a rhywedd (parhaodd)

| ACau sy'n ddynion | Etholwyd yn Gyntaf | ACau sy'n fenywod | Etholwyd yn Gyntaf |
|---|---|---|---|
| Phil Williams | 1 | | |
| Jeff Cuthbert | 2 | Tamsin Dunwoody | 2 |
| Carl Sargeant | 2 | Lisa Francis | 2 |
| Alun Ffred Jones | 2 | Denise Idris Jones | 2 |
| Brynle Williams | 2 | Laura Anne Jones | 2 |
| Mark Isherwood | 2 | Catherine Thomas | 2 |
| Trish Law | 2 | | |
| Sandy Mewies | 2 | | |
| Irene James | 2 | | |
| Leanne Wood | 2 | | |
| Mohammad Ashgar | 3 | Angela Burns | 3 |
| Alun Davies | 3 | Nerys Evans | 3 |
| Andrew RT Davies | 3 | Lesley Griffiths | 3 |
| Paul Davies | 3 | Bethan Jenkins | 3 |
| Chris Franks | 3 | Joyce Watson | 3 |
| Darren Millar | 3 | | |
| Nick Ramsay | 3 | | |
| David Rees | 4 | Janet Finch-Saunders | 4 |
| Vaughan Gething | 4 | Jenny Rathbone | 4 |
| Mark Drakeford | 4 | Julie Morgan | 4 |
| Ken Skates | 4 | Julie James | 4 |
| Gwyn Price | 4 | Rebecca Evans | 4 |
| Keith Davies | 4 | Antoinette Sandbach | 4 |
| Russell George | 4 | Janet Haworth | 4 |
| Mick Antoniw | 4 | Eluned Parrott | 4 |
| Mike Hedges | 4 | Suzy Davies | 4 |
| Rhun ap Iorwerth | 4 | | |
| William Powell | 4 | | |
| Simon Thomas | 4 | | |
| Aled Roberts | 4 | | |
| Llyr Huws Griffiths | 4 | | |
| Lindsay Whittle | 4 | | |
| Byron Davies | 4 | | |
| Altaf Hussain | 4 | | |
| **Cyfanswm (66)** | **66** | **Cyfanswm (48)** | |

*1 1999-2003; 2 2003-07; 3 2007-11; 4 2011-16*

Tabl 15: Canlyniadau a ragamcanir (pedair sefyllfa, a amlinellir isod)

| Etholaeth | Sefyllfa 1 | | Sefyllfa 2 | | Sefyllfa 3 | | Sefyllfa 4 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Plaid/ Rhywedd | | Plaid/ Rhywedd | | Plaid/ Rhywedd | | Plaid/ Rhywedd | |
| Aberafan | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D |
| Aberconwy | Ceid | M | Ceid | M | Ceid | M | Ceid | M |
| Alyn a Glannau Dyfrdwy | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D |
| Arfon | PC | M | PC | M | PC | M | PC | M |
| Blaenau Gwent | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D |
| Brycheiniog a Sir Faesyfed | DRh | M | DRh | M | DRh | M | Ceid | D |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D |
| Caerffili | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D |
| Canol Caerdydd | Llaf | M | DRh | M | DRh | M | Llaf | M |
| Gogledd Caerdydd | Ceid | M | Ceid | M | Ceid | M | Llaf | M |
| De Caerdydd a Phenarth | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D |
| Gorllewin Caerdydd | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D |
| Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr | PC | D | PC | D | PC | D | PC | D |
| Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro | Ceid | M | Ceid | M | Ceid | M | PC | D |
| Ceredigion | PC | M | PC | M | PC | M | PC | M |
| De Clwyd | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D |
| Gorllewin Clwyd | Ceid | D | Ceid | D | Ceid | D | Ceid | D |
| Cwm Cynon | Llaf | M | Llaf | M | Llaf | M | Llaf | M |
| Delyn | Llaf | M | Ceid | D | Llaf | M | Llaf | M |
| Dwyfor Meirionnydd | PC | D | PC | D | PC | D | PC | D |
| Gŵyr | Llaf | M | Ceid | D | Llaf | M | Llaf | M |
| Islwyn | Llaf | M | Llaf | M | Llaf | M | Llaf | M |
| Llanelli | PC | M | PC | M | PC | M | PC | M |
| Merthyr Tudful a Rhymni | Llaf | M | Llaf | M | Llaf | M | Llaf | M |
| Mynwy | Ceid | D | Ceid | D | Ceid | D | Ceid | D |
| Sir Drefaldwyn | Ceid | D | Ceid | D | Ceid | D | Ceid | D |
| Castell-nedd | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D |
| Dwyrain Casnewydd | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D |
| Gorllewin Casnewydd | Llaf | M | Llaf | M | Llaf | M | Llaf | M |
| Ogwr | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D |
| Pontypridd | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D |
| Preseli Sir Benfro | Ceid | D | Ceid | D | Ceid | D | Ceid | D |
| Rhondda | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D |
| Dwyrain Abertawe | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D | Llaf | D |
| Gorllewin Abertawe | Llaf | M | Llaf | M | Llaf | M | Llaf | M |
| Torfaen | Llaf | M | Llaf | M | Llaf | M | Llaf | M |

## Tabl 15: Canlyniadau a ragamcanir (pedair sefyllfa, a amlinellir isod [parhaodd])

| Etholaeth | Sefyllfa 1 | | Sefyllfa 2 | | Sefyllfa 3 | | Sefyllfa 4 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Plaid/ Rhywedd | | Plaid/ Rhywedd | | Plaid/ Rhywedd | | Plaid/ Rhywedd | |
| Dyffryn Clwyd | Llaf | M | Ceid | D | Llaf | M | Llaf | M |
| Bro Morgannwg | Llaf | M | Ceid | D | Llaf | M | Llaf | M |
| Wrecsam | Llaf | M | Ceid | D | Llaf | M | Llaf | M |
| Ynys Môn | PC | D | PC | D | PC | D | PC | D |
| Gogledd Cymru | Ceid | D | Llaf | M | UKIP | D | UKIP | D |
| Gogledd Cymru | PC | D | PC | D | UKIP | M | PC | M |
| Gogledd Cymru | UKIP | D | UKIP | D | Ceid | D | Ceid | D |
| Gogledd Cymru | UKIP | M | UKIP | M | PC | D | PC | D |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | Llaf | M | Llaf | M | Llaf | M | Llaf | M |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | Llaf | M | Llaf | M | Llaf | M | Llaf | M |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | UKIP | D | UKIP | D | UKIP | D | UKIP | D |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | PC | D | PC | D | UKIP | D | Ceid | D |
| Canol De Cymru | Ceid | D | PC | M | PC | M | PC | M |
| Canol De Cymru | PC | M | UKIP | D | PC | D | Ceid | D |
| Canol De Cymru | UKIP | D | PC | D | Ceid | D | Ceid | D |
| Canol De Cymru | UKIP | D | Ceid | D | UKIP | D | UKIP | D |
| Dwyrain De Cymru | PC | D | PC | D | PC | D | PC | D |
| Dwyrain De Cymru | UKIP | D | UKIP | D | PC | M | UKIP | D |
| Dwyrain De Cymru | Ceid | D | Ceid | D | Ceid | D | Ceid | D |
| Dwyrain De Cymru | UKIP | D | UKIP | D | UKIP | D | UKIP | D |
| Gorllewin De Cymru | Ceid | M | PC | M | PC | M | PC | M |
| Gorllewin De Cymru | PC | M | UKIP | M | PC | D | Ceid | D |
| Gorllewin De Cymru | UKIP | M | Ceid | M | Ceid | M | Ceid | M |
| Gorllewin De Cymru | UKIP | D | UKIP | D | UKIP | D | UKIP | M |
| | | | | | | | | |
| **ISGYFANSWM** | D | **M** | D | **M** | D | **M** | D | **M** |
| Llafur | 14 | 14 | 14 | 9 | 14 | 13 | 14 | 15 |
| Ceidwadwyr | 7 | 4 | 11 | 4 | 7 | 6 | 11 | 2 |
| Plaid Cymru | 6 | 5 | 7 | 5 | 7 | 6 | 6 | 6 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 0 | 1 | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| UKIP | 6 | 3 | 6 | 2 | 6 | 1 | 5 | 1 |
| | | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | 33 | **27** | 38 | **22** | 34 | **28** | 36 | **24** |

Sefyllfa 1 – Rhagamcaniad y CNE ar sail canlyniad gwael i'r Blaid Lafur;
Sefyllfa 2 – Rhagamcaniad y CNE ar sail gwell canlyniad i'r Blaid Lafur;
Sefyllfa 3 – Rhagamcaniad Astudiaeth Etholiad Cymru ar sail gogwydd cenedlaethol cyson;
Sefyllfa 4 – Rhagamcaniad Astudiaeth Etholiad Cymru ar sail gogwydd cymhareb.

Electoral Reform Society Cymru

The Electoral Reform Society
Tŷ Baltig
Sgwar Mount Stuart
CF10 5FH

Ebost: wales@electoral-reform.org.uk
Ffôn: 029 2049 6613
Twitter: @ERS_Cymru
Facebook: www.facebook.com/ERSWales

www.electoral-reform.org.uk